Cyfarfod Cyngor Cymuned Talyllychau, a gynhaliwyd yn Ysgol Talyllychau ar y 9fed o Mawrth 2024 am 7.30yh.

Presennol Janine Roberts (Cadeirydd), Aled Williams (Is-Gadeirydd), Rhys Williams, Marged Bowen, John Williams, Jane Morgan, Cynghorydd Sir Fiona Walters & Gethin Williams (Clerc).

Ymddiheuriadau – Dim.

Datganiadau o ddiddordeb - Dim.

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Unrhyw materion yn codi

- Cytunwyd i gael trafodaethau pellach ynglŷn a penodi Cynghorydd Cymunedol yng nghyfarfod mis Mai.
- Hysbyseb ar gyfer swydd wag ychwanegol Cynghorydd Cymunedol i'w rhoir ar wefan y Cyngor a'i roi ar hysbysfwrdd lleol.

Datganiad Banc. Ceisiadau Taliad

- Balans presennol - £12,453.27.
- Cyflog y Clerc - £333.26
- Taliad i CTHEM - £83.40
- Aelodaeth Un Llais Cymru – £97.00.
- CSC, Goleuadau Cyhoeddus - £783.08.

Gohebiaeth

- Cadarnhaodd Kath Lovatt fod yr holl wiriadau defib wedi'u gwneud ar gyfer mis Mawrth, ac nid oes unrhyw faterion i'w hadrodd.
- Dychwelodd siec o Cylch yr Urdd Blaenau Tywi gan eu bod angen cyfeirio'r siec at Urdd Gobaith Cymru. Penderfynwyd canslo'r siec, fydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Mai.

Cynllunio

- Dim ceisiadau cynllunio.

<u>Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf</u>

- Codwyd pryderon ynghylch faint o sbwriel sydd yn yr ardal leol. Gethin i gysylltu â'r Cyngor Sir i weld beth y gellir ei wneud.
- Y Cynghorydd Fiona Walters i gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r tyllau ar y ffordd mewn gwahanol ardaloedd.
- Daeth y cyfarfod i ben am 9.00yh
- Cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Ysgol Talyllychau am 7.30yh ar y 7fed o Mai 2024.